

CYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 18fed Mai 2016 yn Siambr y Cyngor, Canolfan Gymunedol Ffordd Wellington, y Rhyl, gan ddechrau am 6.00pm.

YN BRESENNOL

Y Cynghorydd B. Mellor (Maer)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, A. R. James, Ms. J. McAlpine, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, S. H. Ratcliffe, Miss S. L. Roberts, A. J. Rutherford, Miss R. Siddall, D. Simmons, T. Thomas, y Parch. Stan Walker a Miss C.L. Williams.

Gareth Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

1. DECHRAU'R CYFARFOD AC YMDDIHEURIADAU

Dechreuodd Caplan y Maer, y Tad Charles Ramsay y cyfarfod trwy arwain pawb a oedd yn bresennol mewn Gweddi.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cynghorwyr I. W. Armstrong (yn sâl), Mrs E. M. Chard (yn sâl), Ms J. Hughes (yn sâl), Mrs P. M. Jones (yn sâl), B. F. Moylan (yn sâl) a W. N. Tasker (yn sâl).

Mewn perthynas â chofnod rhif 86 2il Mawrth 2016, adroddodd Clerc y Dref iddo dderbyn llythyr gan y Cynghorydd Armstrong yn hysbysu o'i gyflwr presennol ac yn gofyn i'r Cyngor ystyried roddi cyfnod goddefeb pellach iddo.

PENDERFYNWYD rhoi caniatâd i'r Cynghorydd Armstrong i fod yn absennol tan ddiwedd mis Hydref 2016.

2. ETHOL Y MAER A'I SEFYDLU

Dywedodd y Cynghorydd Mellor ychydig o eiriau am ei flwyddyn yn y swydd a chyfeiriodd at y nifer fawr o ddigwyddiadau y gwahoddwyd ef i'w mynychu. Diolchodd i'w gyd-Gynghorwyr a staff y Cyngor am eu cymorth a dywedodd bod y 12 mis diwethaf wedi bod yn gyfnod balch iawn iddo ef ac roedd wedi ei fwynhau'n fawr.

Yn unol â Pholisi'r Cyngor ar Benodiadau Blynyddol, gwahoddodd y Maer enwebiadau ar gyfer Swydd y Maer ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2016/2017.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs J. Chamberlain-Jones, ac eiliwyd gan y Cynghorydd P. Prendergast bod y Cynghorydd Miss Sarah Roberts yn cael ei hethol.

PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Roberts yn Faer y Rhyl ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2016/17.

Yna arwisgodd y Cynghorydd Mellor y Cynghorydd Roberts gyda Chadwyn y Swydd, cyflwynodd flodau iddi a gwahoddodd y Maer newydd ei phenodi i ddarllen a llofnodi'r Datganiad Swydd.

Diolchodd y Maer i'w chynigiwr a'i heiliwr am eu henwebiadau a'u geiriau caredig a chadarnhaodd mai ei mam Mrs Glenda Roberts fyddai ei Maeres a bod y Parchedig Andy Grimwood yn garedig wedi cytuno bod yn Gaplan iddi am y flwyddyn i ddod. Ychwanegodd y Cynghorydd Roberts mai ei thema ar gyfer y flwyddyn fyddai "canfod eich llais", yn grymuso pobl y Rhyl i fynegi eu hunain, cael eu clywed ac yn y pen draw helpu i newid pethau er gwell.

Ychwanegodd y Cynghorydd Roberts mai'r elusen yr oedd yn ei ddewis am y flwyddyn i ddod fyddai elusen Aloud, sydd â'r nod o newid bywydau bechgyn ifanc, ac a fyddai'n perfformio yn ddiweddarach yn ei noson Sefydlu Maer.

Arwsgodd y Cynghorydd Mellor y Faeres newydd gyda Bathodyn y Swydd a chyflwyno blodau iddi.

Ar ran y Cyngor Tref diolchodd y Cynghorydd Roberts i'r Maer a'r Faeres a oedd yn ymddeol am eu gwasanaeth dros y 12 mis diwethaf a chyflwynodd Arwyddlun y Dref a Medal Dinesig i'r Cynghorydd Mellor. Yna cyflwynodd y Cynghorydd Roberts flodau i Mrs Mellor.

3. ETHOL DIRPRWY FAER`

Yn unol â Pholisi'r Cyngor ar Benodiadau Blynyddol, gwahoddodd y Maer enwebiadau ar gyfer ethol Dirprwy Faer ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2016/2017.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd P. Prendergast ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. J. Rutherford bod y Cynghorydd Alan R. James yn cael ei ethol.

PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd James yn Ddirprwy Faer y Rhyl ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2016/17.

Arwsgodd y Maer y Cynghorydd James gyda Chadwyn y Swydd a'i wahodd i lofnodi Datganiad y Swydd.

Wedi hyn, diolchodd y Dirprwy Faer i Aelodau'r Cyngor am eu henwebiadau a dywedodd mai ei Ddirprwy Faeres fyddai ei wraig, y Cynghorydd Mrs Win M. Mullen-James.

Arwsgodd y Maer y Dirprwy Faeres newydd ei phenodi gyda Bathodyn y Swydd a chyflwynodd flodau iddi.

4. COFNODION

Cyflwynwyd Cofnodion Cyfarfodydd canlynol y Cyngor a'i Bwyllgorau i'w cymeradwyo fel cofnod cywir:

Y Cyngor - 20fed Ebrill 2016 - Rhifau Cofnod 145-160

Cynigiwyd gan y Cynghorydd B. Mellor ac eiliwyd gan y Cynghorydd Miss S.L. Roberts a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Pwyllgor Cynllunio - 20fed Ebrill 2016 - Rhifau Cofnod 64-66

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. R. James ac eiliwyd gan y Cynghorydd P. Prendergast a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

5. **PENODI RHYDDFREINIWR ANRHYDEDDUS Y DREF**

Cyhoeddodd y Maer yn ffurfiol benodiad Mr Peter Robinson fel ail Ryddfrefniwr Anrhydeddus y Dref a dywedodd y byddai Mr Robinson yn derbyn y wobr mewn cyfarfod arbennig i'w gynnal ym mis Mehefin.

6. **ETHOL CADEIRYDD – PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL**

Yn unol â Pholisi'r Cyngor ar Benodiadau Blynyddol, gwahoddodd y Maer enwebiadau ar gyfer Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2016/2017.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd B. Mellor ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. R. James y dylid penodi'r Cynghorydd P. Prendergast

PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Prendergast yn Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2016/2016.

7. **ETHOL IS-GADEIRYDD – PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL**

Yn unol â Pholisi'r Cyngor ar Benodiadau Blynyddol, gwahoddodd y Maer enwebiadau ar gyfer Is-gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2016/2017.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs J. Chamberlain-Jones ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs J. Butterfield YH MBE y dylid penodi'r Cynghorydd A. J. Rutherford.

PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Rutherford yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2016/2017.

8. **ETHOL CADEIRYDD – PWYLLGOR CYNLLUNIO**

Yn unol â Pholisi'r Cyngor ar Benodiadau Blynyddol, gwahoddodd y Maer enwebiadau ar gyfer Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2016/2017.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. J. Rutherford ac eiliwyd gan y Cynghorydd P. Prendergast y dylid penodi'r Cynghorydd A. R. James.

PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd James yn Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2016/2017.

9. **ETHOL IS-GADEIRYDD – PWYLLGOR CYNLLUNIO**

Yn unol â Pholisi'r Cyngor ar Benodiadau Blynyddol, gwahoddodd y Maer enwebiadau ar gyfer Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2016/2017.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. J. Rutherford ac eiliwyd gan y Cynghorydd B. Mellor y dylid penodi'r Cynghorydd Mrs E. M. Chard.

PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Chard yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2016/2017.

10. ETHOL CADEIRYDD – PWYLLGOR CYNLLUNIO STRATEGOL A GWEITHREDOL

Yn unol â Pholisi'r Cyngor ar Benodiadau Blynyddol, gwahoddodd y Maer enwebiadau ar gyfer Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2016/2017.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs J. McAlpine ac eiliwyd gan y Cynghorydd P. Predegast y dylid penodi'r Cynghorydd A. J. Rutherford.

PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Rutherford yn Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2016/2017.

11. ETHOL IS-GADEIRYDD – PWYLLGOR CYNLLUNIO STRATEGOL A GWEITHREDOL

Yn unol â Pholisi'r Cyngor ar Benodiadau Blynyddol, gwahoddodd y Maer enwebiadau ar gyfer Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2016/2017.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd B. Mellor ac eiliwyd gan y Cynghorydd Miss C. L. Williams y dylid penodi'r Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James.

PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Mullen-James yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2016/2017.

12. ETHOL CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD – PWYLLGOR STAFFIO

PENDERFYNWYD gohirio'r mater tan gyfarfod nesaf y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol.

13. CADARNHAU HYRWYDDWYR Y CYNGOR TREF

Yn unol â Pholisi'r Cyngor ar Benodiadau Blynyddol, gofynnodd y Maer i'r cyfarfod gadarnhau penodiad yr Hyrwyddwyr presennol.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs J. Butterfield YH MBE ac eiliwyd gan y Cynghorydd Miss C. L. Williams bod y Cynghorwyr Ms J. McAlpine ac A. J. Rutherford yn cael eu cadarnhau fel Hyrwyddwyr y Cyngor ar gyfer Rhaglen Gweithgareddau Corfforol y Rhyl.

PENDERFYNWYD cadarnhau'r penodiadau.

14. CYFLWYNO BATHODYN DINESIG

Ar ran y Cyngor Tref, cyflwynodd y Maer Fathodyn Dinesig y Cyngor i'r Cynghorydd Jeanette Chamberlain-Jones i nodi 12 mlynedd o wasanaeth i'r Cyngor Tref a chymuned y Rhyl.

15. DYNODI DYLETSWYDDAU A GYMERADWYWD

Gofynnodd y Maer am gael cadarnhau presenoldeb cynrychiolwyr a benodwyd i'r canlynol:

- Cymdeithas Cyngorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru
- Sir Ddinbych Gynaliadwy
- Digwyddiadau Hyfforddi i Gadeiryddion Pwyllgorau
- Grŵp Cyfeirio Prosiect Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

a chael eu dynodi fel dyletswyddau a gymeradwywyd.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs J. Butterfield YH MBE ac eiliwyd gan y Cynghorydd Miss C. L. Williams bod yr uchod yn cael ei gadarnhau.

PENDERFYNWYD cadarnhau'r dyletswyddau a gymeradwywyd.

16. ATODLEN CYFARFODYDD

Gofynnodd y Maer i'r Aelodau gadarnhau'r Atodlen o Gyfarfodydd ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2016/2017 (a ddsbarthwyd gyda'r Rhaglen).

Cynigiwyd gan y Cynghorydd B. Mellor ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. R. James y dylid cadarnhau'r atodlen.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r atodlen.

17. LLOFNODWYR

Gofynnodd y Maer i'r Aelodau gadarnhau llofnodwyr cyfrifon cyfredol a buddsoddi y Cyngor ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2016/2017.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd P. Prendergast ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. R. James y dylid cadarnhau'r llofnodwyr fel a ganlyn:

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol
(Y Cyngorwyr P. Prendergast ac A. J. Rutherford yn eu tro)

Maer a'r Dirprwy Faer, fel Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor
(Y Cyngorwyr Miss S. L. Roberts ac A. R. James yn eu tro)

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio
(Y Cyngorwyr A. R. James a Mrs E. M. Chard yn eu tro)

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol
(Y Cyngorwyr A. J. Rutherford a Mrs W. M. Mullen-James yn eu tro)

Ynghyd ag un o'r Swyddogion canlynol:

Mr G. J. Nickels (Clerc y Dref a Swyddog Ariannol Cyfrifol).
Miss H. J. Windus (Diprwy Glerc y Dref)
Mr A. O. Williams (Swyddog Cyllid)

PENDERFYNWYD cadarnhau'r llofnodwyr.

18. TERFYNU'R CYFARFOD

Gan nad oedd unrhyw eitemau busnes eraill, datganodd y Maer bod cyfarfod y Cyngor wedi dod i ben.

Maer:

Dyddiad:.....